CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1396 (Cy.110)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau amrywiol sydd gan mwyaf yn ganlyniad i Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n pennu'r trefniadau asesu i ddisgyblion ym mlwyddyn olaf y trydydd cyfnod allweddol. Mae'n disodli'r gofyniad i brofion gael eu rhoi i'r disgyblion hynny, fel y penderfynir ar eu lefelau cyrhaeddiad drwy asesiadau athrawon. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi cyfeiriadau at asesiadau athrawon yn lle'r cyfeiriadau at y profion hyn ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol eraill yn y Rheoliadau canlynol - Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 er mwyn pennu'n fanylach yr wybodaeth ar ganlyniadau asesiadau athrawon yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3, y mae'n ofynnol eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y pennaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004 er mwyn hepgor paragraff a oedd mewn camgymeriad yn honni ei fod yn diwygio darpariaeth a oedd eisoes wedi cael ei dirymu gan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2004.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1396 (W.110)

EDUCATION, WALES

The National Curriculum Assessment Arrangements (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2005

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make amendments to various regulations which are mainly consequential on the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005. That Order specifies the assessment arrangements for pupils in the final year of the third key stage. It removes the requirement for tests to be administered to those pupils, so that their levels of attainment are determined by teacher assessments. These Regulations substitute references to these tests with references to teacher assessments and make other consequential amendments in the following Regulations - the Education (School Performance and Unauthorised Absence Targets) (Wales) Regulations 1999, the Education (School Information) (Wales) Regulations 1999, the Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004 and the Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004.

These Regulations also amend the Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004 so as to specify in more detail the information on the results of teacher assessments at key stages 1, 2 and 3, which is required to be included in the annual head teacher's report to parents and adult pupils.

These Regulations also amend the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004 so as to omit a paragraph which mistakenly purported to amend a provision that had already been revoked by the Education (School Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2004.

2005 Rhif 1396 (Cy.110)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud	*24 Mai 2005*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 214 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 408, 563 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**2**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**3**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol ei fod yn ddymunol yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999(**4**) fel a ganlyn.

(1) 2002 p.32. I gael ystyr "regulations" *gweler* adran 212(1).

(2) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 408 gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), Atodlen 7, paragraff 30, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraffau 57 a 106, Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraff 57 a Deddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 21, paragraff 46. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579.

(3) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002.

(4) O.S. 1999/1811 fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy.253).

2005 No. 1396 (W.110)

EDUCATION, WALES

The National Curriculum Assessment Arrangements (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2005

Made	*24 May 2005*
Coming into force	*1 July 2005*

The National Assembly for Wales makes the following regulations in exercise of the powers conferred on it by section 214 of the Education Act 2002(**1**) and in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 408, 563 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**2**) and now vested in the National Assembly(**3**), and after consulting with those persons with whom consultation appeared to be desirable pursuant to section 408(5) of the 1996 Act:

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the National Curriculum Assessment Arrangements (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 1 July 2005.

(2) These Regulations apply to Wales.

Amendment of the Education (School Performance and Unauthorised Absence Targets) (Wales) Regulations 1999

2.-(1) The Education (School Performance and Unauthorised Absence Targets) (Wales) Regulations 1999(**4**) are amended as follows.

(1) 2002 c.32. For the meaning of "regulations" *see* section 212(1).

(2) 1996 c.56. Section 408 was amended by the Education Act 1997 (c.44), Schedule 7, paragraph 30, the School Standards and Framework Act 1998 (c.31), Schedule 30, paragraphs 57 and 106, the Learning and Skills Act 2000 (c.21), Schedule 9, paragraph 57 and the Education Act 2002 (c.32), Schedule 21, paragraph 46. For the meaning of "prescribed" and "regulations" *see* section 579.

(3) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672, and section 211 of the Education Act 2002.

(4) S.I. 1999/1811 as amended by S.I. 2004/2914 (W.253).

(2) Yn rheoliad 3(1) -

(a) ym mharagraff (b) o'r diffiniad o "to achieve the core subject indicator" yn lle'r geiriau "NC tests" rhodder "teacher assessments";

(b) yn y diffiniad o "level 5" yn lle'r geiriau "NC tests" rhodder "teacher assessments"; a

(c) hepgorer y diffiniad "NC tests".

(3) Yn rheoliad 5 -

(a) ym mharagraff (2) yn lle "NC tests" rhodder y geiriau "teacher assessments" ac yn lle "tests are administered" rhodder y geiriau "assessments are carried out"; ac

(b) ym mharagraff (3), ym mhob un o is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn lle "NC tests to be administered" rhodder y geiriau "teacher assessments to be carried out".

(4) Yn rheoliad 9(3)(b)(i) yn lle "NC tests" rhodder "teacher assessments".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999

3.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**1**) fel a ganlyn -

(a) yn rheoliad 3(1) hepgorer y diffiniad o "NC tests" a "NC tasks"; ac

(b) yn Atodlen 3 hepgorer paragraff 20(6).

(2) Nid yw'r diwygiad a wnaed gan baragraff (1)(b) i'w gymhwyso i wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn ystod blwyddyn cyhoeddi'r ysgol 2005-06 ynglŷn â blwyddyn adrodd yr ysgol 2004-05.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004

4.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) -

(a) hepgorer y diffiniadau o "asiantaeth farcio allanol" a "profion Cwricwlwm Cenedlaethol" a "thasgau Cwricwlwm Cenedlaethol"; ac

(b) yn y diffiniad o "pynciau perthnasol" hepgorer paragraffau (b) ac (c).

(3) Yn rheoliad 2(4) hepgorer y geiriau "unrhyw gyrhaeddiad gan ddisgybl y penderfynir arno gan brawf Cwricwlwm Cenedlaethol neu dasg Cwricwlwm Cenedlaethol yn ystod blwyddyn ysgol flaenorol neu " a "cyrhaeddiad o'r fath neu" ac yn lle "roi" rhodder "rhoi".

(1) O.S. 1999/1812 fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2001/111, 2001/3710, 2002/1400 a 2004/2914 (Cy. 253).

(2) O.S. 2004/1025 (Cy.122), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy. 253).

(2) In regulation 3 (1) -

(a) in paragraph (b) of the definition of "to achieve the core subject indicator" substitute for "NC tests" the words "teacher assessments";

(b) in the definition of "level 5" substitute for "NC tests" the words "teacher assessments"; and

(c) omit the definition of "NC tests".

(3) In regulation 5 -

(a) in paragraph (2) for "NC tests" substitute the words "teacher assessments" and for "tests are administered" substitute the words "assessments are carried out"; and

(b) in paragraph (3), in each of sub-paragraphs (a), (b) and (c) substitute for "NC tests to be administered" the words "teacher assessments to be carried out".

(4) In regulation 9(3)(b)(i) for "NC tests" substitute "teacher assessments".

Amendment of the Education (School Information) (Wales) Regulations 1999

3.-(1) The Education (School Information) (Wales) Regulations 1999(**1**) are amended as follows -

(a) in regulation 3(1) omit the definition of "NC tests" and "NC tasks"; and

(b) in Schedule 3 omit paragraph 20(6).

(2) The amendment made by paragraph (1)(b) is not to apply to information required to be published during the publication school year 2005-06 in relation to the reporting school year 2004-05.

Amendment of the Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004

4.-(1) The Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) -

(a) omit the definitions of "external marking agency" and "NC tests" and "NC tasks"; and

(b) in the definition of "relevant subjects" omit paragraphs (b) and (c).

(3) In regulation 2(4) omit the words "any attainment of a pupil determined by an NC test or NC task during a previous school year or" and "an attainment or".

(1) S.I. 1999/1812 as amended by S.I. 2001/111, 2001/3710, 2002/1400 and 2004/2914 (W.253).

(2) S.I. 2004/1025 (W.122) as amended by S.I. 2004/2914 (W.253).

(4) Hepgorer rheoliad 11.

(5) Yn Atodlen 3 hepgorer paragraffau 4 a 5 a'r penawdau i'r paragraffau hynny.

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004

5.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) -

(a) hepgorer y diffiniadau o "asiantaeth farcio allanol" a "profion Cwricwlwm Cenedlaethol" a "thasgau Cwricwlwm Cenedlaethol"; a

(b) yn y diffiniad o "pynciau perthnasol" hepgorer paragraffau (b) ac (c).

(3) Yn rheoliad 7 hepgorer paragraffau (10)(b), (11), (12) a (13).

(4) Yn Atodlen 2 -

(a) yn lle paragraff 1(1) rhodder y canlynol -

"(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad disgybl mewn pwnc ym mhob un o'r pynciau perthnasol, a chanlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad mewn Saesneg neu, pan fydd y disgybl yn dilyn y rhaglen astudio a elwir "Cymraeg", ym mhob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg.";

(b) yn lle paragraff 2(1) rhodder y canlynol -

"(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad disgybl mewn pwnc ym mhob un o'r pynciau perthnasol, a chanlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, a pan fydd disgybl yn dilyn y rhaglen astudio a elwir "Cymraeg", mewn pob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg."; ac

(c) yn lle paragraff 3(1) rhodder y canlynol -

"(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad disgybl mewn pwnc ym mhob un o'r pynciau perthnasol.".

(5) Yn Atodlen 3-

(a) ym mharagraff 1(2) mewnosoder ar ôl y geiriau "mathemateg a gwyddoniaeth," y geiriau "ac a gyflawnodd bob un o'r lefelau cyrhaeddiad ym mhob targed cyrhaeddiad mewn Saesneg neu, pan fydd disgybl yn dilyn y rhaglen astudio a elwir "Cymraeg", mewn pob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg,";

(b) ym mharagraff 2(2) mewnosoder ar ôl y geiriau "pynciau perthnasol" y geiriau ", ac a gyflawnodd bob un o'r lefelau cyrhaeddiad ym mhob targed cyrhaeddiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, a phan fydd disgybl yn dilyn y rhaglen astudio a elwir

(1) O.S. 2004/1026 (Cy.123), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy. 253).

(4) Omit regulation 11.

(5) In Schedule 3 omit paragraphs 4 and 5 and the headings to those paragraphs.

Amendment of the Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004

5.-(1) The Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) -

(a) omit the definition of "external marking agency" and "NC tests" and "NC tasks"; and

(b) in the definition of "relevant subjects" omit paragraphs (b) and (c).

(3) In regulation 7 omit paragraphs (10)(b), (11), (12) and (13).

(4) In Schedule 2 -

(a) substitute for paragraph 1(1) the following -

"(1) The results of teacher assessment of the pupil's subject level of attainment in each of the relevant subjects, and the results of teacher assessment of the pupil's level of attainment in each attainment target in English or, where the pupil is following the programme of study known as "Welsh", in each attainment target in Welsh.";

(b) substitute for paragraph 2(1) the following -

"(1) The results of teacher assessment of the pupil's subject level of attainment in each of the relevant subjects, and the results of teacher assessment of the pupil's level of attainment in each attainment target in English, mathematics and science, and, where the pupil is following the programme of study known as "Welsh", in each attainment target in Welsh."; and

(c) substitute for paragraph 3(1) the following -

"(1) The results of teacher assessment of the pupil's subject level of attainment in each of the relevant subjects.".

(5) In Schedule 3 -

(a) in paragraph 1(2) insert after the words "mathematics and science," the words "and who achieved each level of attainment in each attainment target in English or, where the pupil is following the programme of study known as "Welsh", in each attainment target in Welsh,";

(b) in paragraph 2(2) insert after the words "relevant subject" the words ", and who achieved each level of attainment in each attainment target in English, mathematics and science, and, where the pupil is following the programme of study known as "Welsh", in

(1) S.I. 2004/1026 (W.123) as amended by S.I. 2004/2914 (W.253).

"Cymraeg", mewn pob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg,"; ac

(c) ym mharagraff 3 -

(i) yn is-baragraff (2) hepgorer y geiriau "a (lle bo'n gymwys) gan brofion y Cwricwlwm Cenedlaethol a thasgau'r Cwricwlwm Cenedlaethol"; ac

(ii) hepgorer is-baragraffau (5) a (6).

(6) Yn Atodlen 4-

(a) ym mharagraff 1(2) mewnosoder ar ôl y geiriau "Mathemateg a Gwyddoniaeth," y geiriau "ac a gyflawnodd bob un o'r lefelau cyrhaeddiad ym mhob targed cyrhaeddiad mewn Saesneg neu, pan fydd disgybl yn dilyn y rhaglen astudio a elwir "Cymraeg", mewn pob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg,";

(b) yn lle paragraff 2(2) rhodder y canlynol -

"(2) Canrannau'r disgyblion hynny a gyflawnodd bob un o'r lefelau cyrhaeddiad yn y pynciau Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac o ran yr ail gyfnod allweddol yn unig, canrannau'r disgyblion hynny a gyflawnodd bob un o'r lefelau cyrhaeddiad ym mhob targed cyrhaeddiad mewn, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a phan fydd y disgybl yn dilyn y rhaglen astudio a elwir "Cymraeg", mewn pob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg, a ddangoswyd yn ôl penderfyniad asesiad athrawon."; ac

(c) hepgorer paragraff 2 (5) a (6).

Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

6. Hepgorer rheoliad 3(1)(a) o Reoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004(**1**).

(1) O.S. 2004/2914 (Cy. 253).

each attainment target in Welsh"; and

(c) in paragraph 3 -

(i) in sub-paragraph (2) omit the word "both" and the words "and (where applicable) by NC tests and NC tasks"; and

(ii) omit sub-paragraphs (5) and (6).

(6) In Schedule 4 -

(a) in paragraph 1(2) insert after the words "mathematics and science," the words "and who achieved each level of attainment in each attainment target in English or, where the pupil is following the programme of study known as "Welsh", in each attainment target in Welsh,";

(b) substitute for paragraph 2(2) the following -

"(2) The percentages of such pupils who achieved each level of attainment in the subjects of English, Welsh, mathematics and science, and in respect of the second key stage only, the percentages of such pupils who achieved each level of attainment in each attainment target in English, mathematics and science, and where the pupil is following the programme of study known as "Welsh", in each attainment target in Welsh, shown as determined by teacher assessment."; and

(c) omit paragraph 2 (5) and (6).

Amendment of the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004

6. Omit regulation 3(1)(a) of the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004(**1**).

(1) S.I. 2004/2914 (W. 253).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

24 Mai 2005

24 May 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1396 (Cy.110)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1396 (W.110)

EDUCATION, WALES

The National Curriculum Assessment Arrangements (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2005

©℗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091142-3

9 780110 911427

£3.00

W80/6/05 ON